OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 2085 (Cy. 204)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Trafforddd yr M4 (Traphont Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed	*22 Awst 2013*
Yn dod i rym	*2 Medi 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (1984)**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Medi 2013. Ei enw yw Gorchymyn Trafforddd yr M4 (Traphont Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 2 Medi 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau hynny o'r draffordd a bennir yn Atodlenni 1 i 3 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar gerbytffordd tua'r dwyrain na cherbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Tra bo traffig wedi ei wahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 14, heb ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lonydd 2 a 3 cerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd a bennir yn Atodlen 1 i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 1.99 metr o led neu'n lletach fynd ar lôn 2 y gwrthlif a bennir yn erthygl 4.

6. Tra bo traffig wedi ei wahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 14, heb ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lonydd 2 a 3 cerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd a bennir yn Atodlen 1 i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 1.99 metr o led neu'n lletach fynd ar lôn 2 y gwrthlif a bennir yn erthygl 6.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, bydd y lleiniau caled sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain a cherbytffordd tua'r gorllewin y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 ar gael i'w defnyddio fel lonydd traffig.

9. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3.

10. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3.

Atal Dros Dro

11. Mae rheoliad 6(3) o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982**(3)** drwy hyn wedi ei atal dros dro:

(a) i'r graddau y mae'n ymwneud â lonydd 2 a 3 cerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 ar yr adegau hynny pan fo'r gwaharddiad a bennir yn erthygl 4 mewn grym; a

(b) i'r graddau y mae'n ymwneud â lonydd 2 a 3 cerbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 ar yr adegau hynny pan fo'r gwaharddiad a bennir yn erthygl 5 mewn grym.

12. Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974**(4)**, i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o draffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 3, drwy hyn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 7 ac 8 ar waith.

13. Mae rheoliad 5 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982**(3)** a darpariaethau rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny sy'n ymwneud â gyrru cerbydau wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r lleiniau caled sy'n gyffiniol â'r darnau o gerbytffordd tua'r dwyrain a cherbytffordd tua'r gorllewin y draffordd a bennir yn erthygl 6 a chyfarwyddir traffig i ddefnyddio'r lleiniau caled penodedig.

Cymhwyso

14. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

15. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Awst 2013

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(3) O.S. 1982/1163 .
(4) O.S. 1974/502.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Hyd a lled y gwrthlif

Y darn hwnnw o'r draffordd sy'n ymestyn o bwynt 500 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Pont Mawdlam Road hyd at bwynt 1.6 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Pont Mawdlam Road.

ATODLEN 2

Hyd a lled y traffig ar y llain galed

Y darn hwnnw o'r draffordd sy'n ymestyn o bwynt 500 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Pont Mawdlam Road hyd at bwynt 2.6 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Pont Mawdlam Road.

ATODLEN 3

Hyd a lled y terfynau cyflymder 30 mya a 50 mya

Y darn hwnnw o'r draffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.3 cilometr i'r dwyrain o ganolbwynt Pont Mawdlam Road hyd at bwynt 3.4 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Pont Mawdlam Road.